Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

18 Rhagfyr 2018

Annwyl Lesley,

**Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018 (y Rheoliadau) yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2018.

Codwyd pwynt adrodd technegol o dan Reol Sefydlog 21.2(vi) mewn perthynas â'r Rheoliadau. Cododd y pwynt adrodd y cwestiwn a ddylai rheoliad 29(1) o'r Rheoliadau gyfeirio at "ddosbarthiad gweledol" yn hytrach na "dosbarthiad" yn unig. Fe wnaethoch chi ymateb drwy ddweud ei bod yn "glir bod y drosedd yn 29(1) yn ymwneud â dosbarthiad gweledol yn unig ac nid pob dosbarthiad".

Fel y nodwyd yn ein pwynt adrodd, mae rheoliad 29 yn creu troseddau ac mae angen eglurdeb llwyr. Felly, byddai'n helpu'r Pwyllgor hwn pe gallech esbonio pam fod angen cyfeirio'n benodol at "trwy gyfrwng offer graddio awtomataidd" yn rheoliad 29(2) ond nid oedd yn angenrheidiol cyfeirio'n benodol at "ddosbarthiad gweledol" yn rheoliad 29(1).

Ers i ni **adrodd**, rydyn ni hefyd wedi dod yn ymwybodol o wall fformadu arwyddocaol yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau a gyhoeddir ar **http://www.legislation.gov.uk/cy**. Yn y fersiynau cyhoeddedig, mae rheoliad 13 o'r testun Saesneg wedi'i rannu'n ddau baragraff, ond ydyw yn y Gymraeg. Rydym yn derbyn bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau a lofnodwyd gennych chi yn gywir, ond efallai y byddwch am dynnu sylw'r Archifau Cenedlaethol at y gwall.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb erbyn 8 Ionawr 2019.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.